**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 07-00(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 8 Rhagfyr 2000 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | ‘Y Ganolfan’, Porthmadog |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Ann Jones, Cadeirydd | Dyffryn Clwyd |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru | Gorllewin Caerdydd |
| *Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru* | |
| Enid Rowlands | Cadeirydd |
| Pauline Wood | Dirprwy Gadeirydd |
| David Hands | Prif Weithredwr |
| Dr Peter Higson | Cyfarwyddwr Datblygu a Rheoli Perfformiad |
| Geoff Lang | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Dr Sandra Payne | Cyfarwyddwr Polisi Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd |
| Arfon Thomas | Cyfarwyddwr Datblygu Gofal Sylfaenol |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Rhagarweiniad ac ymddiheuriadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r ‘Ganolfan’ am ei lletygarwch. Estynnodd groeso hefyd i'r cyfarfod i Rhodri Morgan yn ei rôl fel y gweinidog sy'n gyfrifol am gyd-drefnu polisi'r llywodraeth yng Ngogledd Cymru. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dafydd Elis Thomas, Alison Halford, Gareth Jones, Christine Humphreys a John Marek.

**Eitem 2: Adrodd yn ôl o'r cyfarfod blaenorol** - NWR 07-00(p1)

2.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno yn ei gyfarfod ar 27 Hydref fod llythyron i'w hanfon at:

- Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn tynnu sylw at y rhestr o gynlluniau cyllido sydd a wnelont â lleihau torcyfraith;
- y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau yn nodi prif bwyntiau'r drafodaeth ar Roi Cymunedau'n Gyntaf; a
- Phrif Weinidog Cymru ar drydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru.

2.2 Yr oedd atebion wedi'u derbyn i'r llythyron hyn. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- nododd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ystyried lleihau torcyfraith yn ei gyfarfod yr wythnos ddilynol;
- o ran trydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru yr oedd yn bwysig nodi bod disel yn ffynhonnell ynni anadnewyddadwy tra gellid darparu trydan o ffynonellau adnewyddadwy. Dywedodd Prif Weinidog Cymru wrth y Pwyllgor fod opsiynau ar gyfer uwchraddio'r lein yn cael eu hystyried ar sail gwerth am arian. Ychwanegodd fod yn well gan y Comisiwn Ewropeaidd i gyllid Amcan 1 gael ei ddefnyddio tuag at greu swyddi yn hytrach nag ar brosiectau seilwaith;
- awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gwmni Trenau Virgin yn cofnodi anfodlonrwydd y Pwyllgor â'r ffaith i'r gwasanaeth Intercity o Ogledd Cymru i Lundain gael ei dynnu'n ôl. Yr oedd tynnu'r gwasanaeth yn ôl yn cael effaith andwyol ar deithwyr o Ogledd Cymru a Gweriniaeth Iwerddon, ar ddiwydiant ac ar y gwasanaeth cyhoeddus. Pe bai'r sefyllfa hon yn para am unrhyw gyfnod sylweddol o amser, byddai'n effeithio ar dwristiaeth. Dylai'r llythyr ofyn am eglurhad pam fod y gwasanaeth wedi'i dynnu'n ôl ac am sicrwydd y byddai'r gwasanaeth yn cael ei adfer yn llawn cyn gynted â phosibl. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig hwn;
- gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i gefnogi'r datganiad barn ar dynnu'r gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol o Ogledd Cymru i Lundain yn ôl.

*Pwynt gweithredu*

2.3 Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gwmni Trenau Virgin fel yr awgrymwyd. (Ceir copi o'r llythyr a anfowyd yn atodiad 1).

**Eitem 3: Gwella Iechyd** – NWR 07-00(p2)

3.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Enid Rowlands a'i thîm i'r cyfarfod. Rhoddodd David Hands gyflwyniad byr a nodai'r prif faterion sy'n wynebu'r Awdurdod. Cliciwch yma i weld y cyflwyniad.

3.2 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan y Pwyllgor. Codwyd y pwyntiau canlynol.

3.3 Yr oedd yr Awdurdod Iechyd wedi dweud ei fod yn bryderus y gallai fod ar ei golled o dan yr adolygiad dyrannu adnoddau sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Beth fyddai effaith hynny o bosibl ac a allai Prif Weinidog Cymru roi sicrwydd na fydd Gogledd Cymru ar ei golled o ganlyniad i unrhyw newidiadau?

- o dan y trefniadau presennol dywedodd David Hands fod y pum awdurdod iechyd yng Nghymru yn derbyn dyraniad gogyfer â'u poblogaeth, ar ôl pwysoli'r boblogaeth honno yn ôl oedran ac amddifadedd cymharol. Yr oedd yn bosibl y byddai'r fformwla ddiwygiedig yn rhoi mwy o sylw i amddifadedd. Yr oedd yr Awdurdod yn derbyn pa mor bwysig yw amddifadedd cymdeithasol ond yr oedd yn poeni y gallai fod ar ei golled pe bai'r fformwla ddiwygiedig yn pwysleisio ffactorau amddifadedd trefol. Yr oedd gan Ogledd Cymru boblogaeth uwch na'r cyfartaledd o bobl hn ac wynebai'r Awdurdod gostau uwch yn cyflenwi gwasanaethau mewn ardal wledig helaeth. Yr oedd angen iddo fuddsoddi yn ei wasanaeth dim ond i ymdopi â'r cynnydd yn y galw am fod y boblogaeth yn heneiddio ac oherwydd gwelliannau technolegol a disgwyliadau cynyddol;
- dywedodd Geoff Lang fod cylch gwaith yr arolwg yn cynnwys ystyried cost ychwanegol cyflenwi gwasanaethau yng nghefn gwlad ond nid oedd y pwysiad a gâi ei roi i'r ffactor hwn yn hysbys eto. Nid oedd effaith yr adolygiad yn hysbys eto ond awgrymai gwaith a wnaethpwyd yn 1997 y byddai Gogledd Cymru wedi colli tua £13 miliwn pe byddid wedi defnyddio'r fformwla a oedd mewn grym yn Lloegr ar y pryd;
- dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai ailddyrannu adnoddau i gymunedau difreintiedig yn arwain at drosglwyddiadau oddi mewn i awdurdodau iechyd yn ogystal â rhyngddynt.

3.4 Sut y byddai gwasanaethau iechyd meddwl yn datblygu dros y tair blynedd nesaf? Yr oedd yna broblemau ar hyn o bryd gyda'r amser y mae'n ei gymryd i ddarparu adroddiadau seicolegol:

- dywedodd Peter Higson fod 20% o'r swyddi arbenigol o fewn yr Awdurdod yn wag ar hyn o bryd. Yr oedd yr Awdurdod yn dal i fuddsoddi mwy mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant ac Oedolion, er mwyn gwella'r gefnogaeth yn y gymuned yn arbennig, ond yr ateb yn y tymor hwy oedd cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu hyfforddi.

3.5 Sut yr oedd yr Awdurdod Iechyd yn gweld y cydbwysedd rhwng sicrhau mynediad at wasanaethau i bobl leol tra'n canoli rhai gwasanaethau yn y prif ysbytai? A oedd gan yr Awdurdod gytundebau gydag awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau yn Lloegr sy'n darparu gwasanaethau i gleifion o Ogledd Cymru?

- dywedodd David Hands fod yr adroddiad "Access and Excellence" yn ymdrin â'r mater hwn. Dadleuodd nad oedd arbenigo a chanoli yn gyfystyr â'i gilydd a bod angen taro cydbwysedd. Dim ond pan fyddant wedi'u lleoli mewn canolfannau sydd â phoblogaethau mawr yn eu cyffiniau y mae gwasanaethau technegol iawn, megis llawdriniaeth y galon a llawdriniaeth nerfol, yn ddichonol, ond yr oedd yna le o hyd i ganolfannau rhanbarthol megis yr uned canser yng Nglan Clwyd. Ar y llaw arall, yr oedd rhai arbenigaethau, megis clefyd siwgr, yn cael eu cyflenwi'n gynyddol yn y gymuned. Yr oedd gan yr Awdurdod gytundebau lefel gwasanaeth gydag awdurdodau ac ymddiriedolaethau o Loegr.

3.6 Gwnaethpwyd y pwynt unwaith eto fod gormod o wasanaethau yn cael eu canoli yn hytrach na chael eu darparu yn y gymuned. A oedd yr Awdurdod wedi astudio'r rhwydwaith gwasanaethau i wneud yn sir bod triniaethau yn cael eu darparu'n lleol, pa bryd bynnag y mae hynny'n bosibl? Gofynnwyd i'r Awdurdod gadarnhau hefyd y byddai darparu ysbytai cymuned yn golygu y gellid dod â llawer o wasanaethau yn nes at gymunedau:

- dywedodd David Hands nad oedd yn wir bod gwasanaethau yn cael eu canoli. Polisi'r Awdurdod oedd darparu'n briodol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau a'r adnoddau sydd ar gael. Erbyn hyn, yr oedd Galw Iechyd Cymru ar gael yng Ngogledd Cymru i bobl ymgynghori â'r gwasanaeth. Yr oedd gan Ogledd Cymru gymhareb uwch na'r cyfartaledd o ymarferwyr cyffredinol a 1,500 oedd maint y rhestrau ar gyfartaledd er bod y boblogaeth yn denau mewn rhai ardaloedd. Câi ysbytai cymuned eu sefydlu ar ffurfiau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol ond yr oedd angen sylfaen poblogaeth o 40,000 i 50,000 iddynt fod yn ddichonol. Câi Gogledd Cymru ei gwasanaethu'n dda gyda thri ysbyty dosbarth cyffredinol yn ogystal ag un yng Nghaer a wasanaethai lawer o bobl o'r ardal. Câi rhai gwasanaethau arbenigol eu darparu hefyd yng Ngogledd Cymru.

3.7 Croesawyd y penderfyniad i gadw cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru. Awgrymwyd y dylid penodi mwy o bobl â phrofiad o wasanaethau cymdeithasol a gofal preswyl i CICau a llai o aelodau awdurdodau lleol:

- dywedodd Pauline Wood fod 'nawr yn gyfle da yn ôl pob golwg i adolygu strwythur a chyfansoddiad cynghorau iechyd cymuned.

3.8 Yr oedd cymunedau trefol hefyd am i wasanaethau gael eu darparu'n lleol a chroesawyd gwaith yr Awdurdod yn datblygu ysbytai cymuned. Yr oedd hefyd yn bwysig cadw gwasanaethau sy'n croesi'r ffin yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Yr oedd yr Awdurdod wedi penderfynu cau ysbytai Dobshill, Meadowlea a Threfelin ond yr oedd angen gwell cyfleusterau ar y gymuned fawr o amgylch Bwcle:

- dywedodd Peter Higson y byddai adolygiad o'r gwasanaethau cymuned ym Mwcle wedi'i gwblhau o fewn 12 mis.

3.9 Yr oedd ysmygu yn un o'r lladdwyr pennaf yng Nghymru a'r DU. Beth oedd y ffigurau o ran

marwolaethau sydd a wnelont ag ysmygu yng Ngogledd Cymru ac a oedd parthau di-fwg yn beth da?

- dywedodd Sandra Payne mai ysmygu yw'r mater pennaf o safbwynt iechyd y cyhoedd sy'n wynebu'r NHS. Croesawai'r gwaharddiad ar hysbysebu tybaco a theimlai y gallai'r NHS fod yn gwneud mwy i gynorthwyo unigolion i roi'r gorau i ysmygu.

3.10 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan y cyhoedd wedyn. Codwyd y pwyntiau canlynol.

3.11 Dywedodd Dr Gill Wade, Celtic Connections ei bod yn aml yn anodd cael gafael ar wybodaeth sylfaenol am y gwasanaeth iechyd a ddylai fod yn eiddo cyhoeddus. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ar gael yng Nghymru am y cyffuriau a roddir ar bresgripsiwn ond gellid cael gafael ar yr wybodaeth honno yn hawdd drwy'r rhyngrwyd yn Lloegr. O ganlyniad, yr oedd yn fwy anodd canfod arbedion ariannol posibl yng Nghymru. Yr oedd hefyd yn anodd cael gafael ar wybodaeth sylfaenol arall megis copïau o gylchlythyron iechyd:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd wedi clywed am y broblem hon o'r blaen ac y byddai'n gwneud yn sir bod y swyddogion yn ei datrys. Yr oedd rhyddid gwybodaeth yn un o bolisïau amlycaf y Cynulliad ac yr oedd yn bryderus yngln â'r pwyntiau a godwyd yn y cwestiwn;
- dywedodd David Hands fod yr Awdurdod, allan o gyllideb o £600 miliwn, yn gwario £90 miliwn ar gyffuriau a roddir drwy Ymarferwyr Cyffredinol. Yr oedd yn hanfodol felly fod y gyllideb cyffuriau yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Yr oedd yn ymwybodol bod rhai problemau prosesu data wedi'u hwynebu'n ddiweddar gan Atebion Iechyd Cymru, y corff i Gymru gyfan sy'n monitro data am gyffuriau a roddir ar bresgripsiwn, a thynnodd sylw hefyd at y ffaith y byddai'n anodd darparu mynediad i'r cyhoedd i gronfa ddata fyw.

Atebodd David St George, Celtic Connections ei bod nid yn unig yn anodd cael gafael ar wybodaeth ddiweddar ond hefyd ddata hanesyddol a ddylai fod ar gael ar ffurf cofnodion cyhoeddus.

3.12 Dywedodd Dr Carl Clowes y dylai gwasanaethau gael eu darparu yn y gymuned. Yr oedd gormod o gleifion yn cael eu trin yn Ysbyty Gwynedd pan allent fod yn cael eu trin mewn cyfleusterau mwy priodol. Yr oedd gan Rwydweithiau Clinigol a Reolir ran bwysig i'w chwarae yng Ngogledd Cymru:

- dywedodd Sandra Payne mai Rhwydweithiau Clinigol a Reolir yw conglfaen cynlluniau'r Awdurdod er sicrhau safonau gofal uchel. Cytunai fod yna le i ddatblygu ysbytai cymuned ond yr oedd angen gwella cysylltiadau rhwng arbenigeddau mewn gwahanol sefydliadau os oedd Rhwydweithiau Clinigol a Reolir i weithredu'n iawn. Golygai problemau gweithlu mewn rhai ardaloedd fod yn rhaid gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a gallai Rhwydweithiau Clinigol a Reolir fod o gymorth;
- dywedodd Enid Rowlands fod diffyg sgiliau yn effeithio ar feysydd eraill ar wahân i'r gwasanaethau iechyd ac yr oedd yn fater yr oedd am roi sylw iddo mewn modd cyfannol pan fyddai'n ymgymryd â'i phenodiad fel cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant

Cymru.

3.13 Cytunai Jeff Evans, Cyngor Tref Caergybi mai yn y prif ysbytai y câi gwasanaethau eu darparu yn gynyddol. Nid oedd Ysbyty Caergybi yn trin plant ac nid oedd yn darparu fawr ddim mwy na gofal seibiant a gwasanaeth mân anafiadau. Ar gyfer unrhyw beth arall yr oedd yn rhaid i bobl deithio i Fangor, sydd yn gostus. Anogodd yr Awdurdod i wella gwasanaethau lleol yn hytrach na'u canoli yn y prif ysbytai:

- dywedodd Sandra Payne fod yn rhaid taro cydbwysedd rhwng ansawdd y gwasanaethau ac ymhle y darperir hwy. Yr oedd yna, er enghraifft, resymau clinigol a rhesymau diogelwch da dros beidio â thrin plant mewn unedau mân ddamweiniau.

3.14 Mynegodd y Cynghorydd Trevor Howorth, Cyngor Sir y Fflint, ei gefnogaeth i well gwasanaethau yn y gymuned. Gofynnodd am eglurhad o rôl cynghorau iechyd cymuned, grwpiau iechyd lleol a chynghreiriau iechyd lleol:

- dywedodd Enid Rowlands fod cynghorau iechyd cymuned yn gwneud gwaith pwysig yn siarad ar ran cleifion. Gweithiai'r Awdurdod yn agos gyda hwy ac yr oedd yn falch eu bod yn cael eu cadw yng Nghymru;
- dywedodd David Hands mai is-bwyllgorau o'r awdurdod iechyd yw grwpiau iechyd lleol ac mai eu gwaith yw asesu anghenion lleol a sicrhau bod gwasanaethau lleol yn ymateb i'r anghenion hynny. Cyrff o dan arweiniad yr awdurdodau lleol yw cynghreiriau iechyd lleol ac maent yn ceisio sicrhau bod pob gwasanaeth lleol – tai, addysg, ansawdd yr amgylchedd ayb – yn cyfrannu tuag at wella iechyd y cyhoedd. Lleisiai cynghorau iechyd cymuned bryderon y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd.

3.15 Gofynnodd Ian Scott, Uned Ymyrryd Dwys Dwyfor a changen Unsain Gogledd Cymru a fyddai'r staff glanhau ac arlwyo a staff cefnogi arall yn yr ysbyty cymuned newydd arfaethedig ym Mhorthmadog yn cael eu cyflogi gan y sector cyhoeddus ynteu a fyddent yn cael eu darparu fel rhan o'r prosiect Menter Cyllid Preifat. Cyfeiriodd hefyd at y cyllid o £7 miliwn, sydd wedi'i bridiannu, a ddarparwyd yn Lloegr ar gyfer hyfforddi nyrsys arbenigol a gofynnodd a oedd y Cynulliad yn bwriadu darparu cyllid ar sail gyffelyb i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yng Nghymru:

- dywedodd Peter Higson fod yr Awdurdod wedi ymgynghori yngln â'i strategaeth ar ddarparu ysbytai cymuned. Ceisiai'r strategaeth ddatblygu gwell gwasanaethau lleol craidd yn gefn i'r ysbytai dosbarth cyffredinol a chaniatáu i wasanaethau gael eu datganoli i unedau lleol. Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru oedd yn gyfrifol am Ysbyty Cymuned Porthmadog ac yr oedd yn derbyn cyngor gan y Trysorlys yngln â phrosiectau a sefydlir o dan y Fenter Cyllid Preifat. Disgwylid i'r cynllun gael ei hysbysebu yn yr European Journal yn gynnar y flwyddyn nesaf ac ni fyddai'n bosibl dweud sut y câi staff cefnogi eu cyflogi hyd nes y byddai’r tendrau wedi eu hystyried;
- o ran hyfforddiant dywedodd David Hands na fyddai'r Awdurdod yn croesawu pridiannu cyllid

yn ganolog gan y byddai hynny'n cyfyngu ar hyblygrwydd yr Awdurdod i ymateb i anghenion lleol.

3.16 Dywedodd Elfed Roberts, Cyngor Iechyd Cymuned Penrhyndeudraeth fod llifogydd yn debygol ar y safle a ddewiswyd ar gyfer Ysbyty Porthmadog ac y byddai hyn yn ychwanegu'n sylweddol at y costau:

- dywedodd Peter Higson fod tîm y prosiect yn fodlon bod y safle'n ddiogel ac er bod yna gostau ychwanegol ar ffurf gwaith draenio nid oedd y costau hynny yn afresymol.

3.17 Gofynnodd Dorothy Morris, y Coleg Nyrsio Brenhinol sut y byddai'r Awdurdod yn ymdopi â'r pwysau dros y gaeaf:

- dros y blynyddoedd diwethaf yr oedd Tîm Gorchwyl i Ogledd Cymru wedi'i sefydlu a oedd yn cynnwys yr Awdurdod Iechyd, Ymddiriedolaethau NHS, awdurdodau lleol a'r sector preifat. Yr oedd y trefniant hwn yn gweithio'n dda ac yr oedd yn help i atal cleifion rhag cael eu derbyn yn ddianghenraid ac i'w galluogi i gael eu rhyddhau'r o'r ysbyty yn fuan.

3.18 Cadarnhaodd Barry Latham, Prif Weithredwr, Cymdeithas Cartrefi Preswyl a Nyrsio Gogledd Cymru fod Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru a'r sector preifat yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yng nghyswllt pwysau brys a theimlai fod y sector annibynnol yn gwneud cyfraniad pwysig. Croesawai'r fframwaith cynllunio strategol a oedd yn cael ei ddatblygu gan yr Awdurdod ond dywedodd fod awdurdodau lleol yn rhoi llai o bobl mewn cartrefi nyrsio a bod gwelyau yn cael eu datgofrestru. Gwnâi hyn hi yn fwy anodd ateb y cynnydd mewn galw a grëir gan bwysau brys:

- cytunai Peter Higson fod datgofrestru gwelyau mewn cartrefi nyrsio preswyl yn peri pryder. Yr oedd fforwm cynllunio wedi'i sefydlu i ystyried rôl y sector preifat a'i berthynas â'r sector cyhoeddus.

3.19 Mynegwyd pryder gan y Cynghorydd David Barratt, Cyngor Sir y Fflint ac aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Clwyd yngln â 'gofal iechyd yn ôl codau post'. Fel esiampl, dywedodd fod y dyfeisiau clywed a gyflenwir yn Wrecsam yn well na'r rheini a ddarperir ar Lannau Dyfrdwy:

- dywedodd Sandra Payne fod yr Awdurdod yn gweithio tuag at atal presgripsiynau yn ôl codau post. Gallai'r NHS ddarparu ystod o gyfarpar ac yr oedd angen ymchwilio i wahaniaethau yn y ddarpariaeth rhwng ardaloedd.

3.20 Holodd Ann Shield, SCOVO faint o'r £3 miliwn a oedd ar gael ar gyfer y rhaglen i ailsefydlu pobl ag anableddau dysgu fyddai'n cael ei wario ar ailsefydlu preswylwyr o Ysbyty Bryn y Neuadd.

- dywedodd Peter Higson y câi'r £3 miliwn ei wario'r flwyddyn nesaf ar ailsefydlu cleifion o Ysbyty Hensol. Y flwyddyn ddilynol byddai £12 miliwn ar gael i'r rhaglen ailsefydlu a dylai fod

yn bosibl cwblhau'r gwaith o ailsefydlu preswylwyr Bryn y Neuadd. Yr oedd cyfarfod i'w gynnal gyda swyddogion y Cynulliad yn y Flwyddyn Newydd;
- dywedodd Peter Higson fod cynlluniau'n cael eu datblygu gyda'r awdurdodau lleol. Cytunai ei bod yn drueni bod y cynlluniau ailsefydlu gwreiddiol wedi'u hatal.

3.21 Diolchodd Dr Michael Toman, Pennaeth Ysgol Plas Bron Dyffryn i'r Cynulliad am y £2 filiwn a ddarparwyd yn ddiweddar i wella'r ysgol. Dywedodd fod plant awtistig yn elwa o fuddsoddiad tra maent yn ifanc iawn a gofynnodd am well cynllunio hirdymor i gyllido gwasanaethau ar eu cyfer. Galwodd hefyd am strategaeth ar anableddau ac anawsterau dysgu llai cyffredin:

- dywedodd Peter Higson fod £450,000 wedi'i wario ar wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau yng Ngogledd Cymru a chytunai fod angen strategaeth ar gyfer y tymor hwy. Cynigiodd siarad â Dr Toman ar ôl y cyfarfod.

3.22 Pryderai Rhiannon Efans o Gyngor Cymuned Bethesda yngln â'r safonau gofal mewn ysbytai. Teimlai fod safon y gwasanaethau sylfaenol yn uwch mewn cyfleusterau llai, yn y gymuned, nag yn yr ysbytai mawr, cyffredinol.

3.23 Diolchodd y Cadeirydd i dîm yr Awdurdod Iechyd am y cyflwyniad ac am ateb cwestiynau.

**Eitem 4: Prif Weinidog Cymru**

4.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Brif Weinidog Cymru i'r cyfarfod. Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod y drafodaeth ar wella iechyd a chyfraniad y cyhoedd yn dangos gwerth y pwyllgorau rhanbarth. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau wedyn.

4.2 Dywedodd Roger Williams Ellis ei fod yn cynnal busnes coedwigaeth ar 200 hectar gan gyflogi 16 o ddynion. Amlinellodd bwysigrwydd coedwigaeth, yr anawsterau a wynebir gan y diwydiant ar hyn o bryd a'r gwahaniaeth rhwng y gefnogaeth gyhoeddus sydd ar gael i amaethyddiaeth ac i goedwigaeth:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd yn arbenigwr ar goedwigaeth ond yn ôl a ddeallai yr oedd llawer o'r anawsterau presennol i'w priodoli i fewnforion rhad yn enwedig o wledydd y Baltig. Ffafriai'r ffocws cytbwys ar goed caled a choed meddal fel ei gilydd a gynigiwyd yn strategaeth coedlannau ddrafft y Comisiwn Coedwigaeth a dadleuodd mai cynlluniau megis Coed Cymru, i ychwanegu gwerth at ein hadnoddau coed, yw'r ffordd ymlaen.

4.3 Diolchodd Huw Lewis, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i Brif Weinidog Cymru am gytuno i gwrdd â'r Gymdeithas fis nesaf. Gofynnodd pam nad oedd Prif Weinidog Cymru wedi cefnogi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a pham ei fod bellach wedi newid ei feddwl?

- eglurodd Prif Weinidog Cymru nad oedd Deddf yr Iaith Gymraeg, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Geidwadol, yn ymdrin â'r sector preifat. Ei bryder ar y pryd oedd na fyddai'r cyrff

sector cyhoeddus a oedd yn cael eu preifateiddio yn dod o dan gochl y Ddeddf ac y byddai ei darpariaethau wedyn yn cyfeirio at sector cyhoeddus a fyddai'n crebachu'n barhaus. Ers hynny yr oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi gweithio'n agos gyda'r sector preifat ar gynlluniau gwirfoddol, gyda llawer o lwyddiant.

4.4 Teimlai Eleri Carrog y dylai fod yna flwch tic i Gymry ar ffurflen cyfrifiad 2001. Yr oedd yna bryder ymysg holl bleidiau'r Cynulliad yngln â'r mater hwn ond rhaid oedd gweithredu a gofynnodd i Brif Weinidog Cymru fod yn gadarn wrth ddadlau o blaid blwch tic i Gymry:

- cytunai Prif Weinidog Cymru y dylai fod yna flwch tic i Gymry ond erbyn hyn rhaid oedd ystyried beth y gellid ei gyflawni yn ymarferol. Nid oedd Aelodau'r Cynulliad nac Aelodau Seneddol wedi rhagweld y broblem hyd nes i'r protestiadau ddechrau ym mis Awst yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dechreuwyd argraffu'r ffurflenni yn hwyr fis Gorffennaf ac yr oedd yn anodd iawn gwneud newidiadau bellach ond yr oedd yn ymchwilio i'r posibiliadau ymarferol gyda phennaeth newydd Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

4.5 Cododd Neil Crumpton, Cyfeillion y Ddaear – Cymru y ffaith bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu gwerthu'r caeau chwarae yn Ysgol John Bright yn Llandudno ar gyfer datblygiad adwerthu gan Wal Mart:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru na allai wneud sylwadau ar yr achos penodol ac y dylid codi'r mater gyda'r cyngor.

4.6 Cyfeiriodd Jeff Evans, Cyngor Tref Caergybi at adroddiadau yn y wasg fod 5,000 o bobl yn marw bob blwyddyn yn y DU o ganlyniad i MRSA (awrëws staffylococws sy'n gwrthsefyll methisilin). Gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag MRSA a gwneud gwell defnydd o'r arian:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru fod llawer o bobl yn cario'r haint MRSA ar eu croen ond nad oedd yn achosi problem ond pan âi i mewn i'r corff, er enghraifft drwy glwyf ac yn enwedig yn ddwfn tu mewn i'r corff ar ôl llawdriniaeth. Cytunai, felly, fod rheoli heintiau rhag ymledu mewn ysbytai, yn enwedig ar wardiau llawfeddygol, o'r pwys pennaf.

4.7 Gofynnodd Elen Helen ap Owen, disgybl yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog a oedd gan y Cynulliad ddigon o bwerau i ofalu am fuddiannau Cymru:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru fod araith y Frenhines yn cynnwys un mesur penodol i Gymru a fyddai'n ehangu pwerau comisiynydd plant annibynnol Cymru. Yr oedd yna bedwar Mesur arall a fyddai’n cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer Cymru ar faterion megis iechyd a thai. Dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai'n hoffi gweld slot ar gyfer Cymru yn araith y Frenhines bob blwyddyn.

4.8 Pryderai'r Cynghorydd Trevor Howorth, Cyngor Sir y Fflint fod ystadegau diweithdra yn cael eu

defnyddio wrth fwrw cyfrif o'r grant cynnal y dreth ar gyfer ardaloedd difreintiedig megis Sir y Fflint lle'r oedd cyflogaeth yn gymharol uchel ond cyflogau'n wael:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru fod economi Gogledd Ddwyrain Cymru yn iach yn ôl llawer ffordd o fesur. Ni cheir yno rai o'r swyddi proffesiynol sy'n denu'r cyflogau uchaf ond mae yno gyflenwad da o swyddi i grefftwyr sy'n galw am sgiliau penodol. Yn gyffredinol, yr oedd setliad Grant Cynnal y Dreth o'r arolwg cynhwysfawr o wariant yn dda iawn i lywodraeth leol yng Nghymru er y byddai ailwampio'r fformwla ddosbarthu yn sicr o olygu bod rhai ar eu hennill ac eraill ar eu colled. Os nad oedd Sir y Fflint wedi gwneud cystal â rhai ardaloedd eraill, byddai'n dal i dderbyn adnoddau ychwanegol yn y setliad, fel y byddai pob awdurdod lleol yng Nghymru.

4.9 Dywedodd Dr Carl Clowes fod yr anawsterau o ran cael gafael ar ddata iechyd manwl a'r diffyg blwch tic i Gymry ar ffurflenni'r cyfrifiad yn amlygu'r angen am i Gymru gael ei chofrestrydd cyffredinol ei hun, fel sydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd y cyfrifiad wedi'i ddatganoli i Gymru ond teimlai ef fod ystadegau am Gymru yn gyffredinol yn well ac yn haws cael gafael arnynt nag yn Lloegr. Cadarnhaodd y byddai'n mynd ar drywydd y pwynt a wnaethpwyd yn gynharach yngln â data iechyd am bresgripsiynau generig gyda'r ddau achwynydd unigol.

4.10 Apeliodd Gwyneth Roberts, Canolfannau Cynghori Gogledd Cymru am gyllido Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori yn well a gofynnodd pam mai cyfrifoldeb yr Adran Diwydiant a Masnach oedd hyn:

- cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru y ddealltwriaeth nad oedd y mater hwn wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad ac mai mater i'r Adran Diwydiant a Masnach yw.

4.11 Mynegwyd pryder gan Elfed Roberts, Cylch yr Iaith yngln â'r cynnydd yn y cynnwys Saesneg ar S4C a Radio Cymru. Gofynnodd i Brif Weinidog Cymru bwysleisio wrth y ddau gorff darlledu bod angen dilyn canllawiau caeth ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd darlledu yn fater sydd wedi'i ddatganoli er bod gan y Cynulliad yn amlwg ddiddordeb yn enwedig yng nghyswllt yr iaith Gymraeg. Rhaid oedd taro cydbwysedd rhwng purdeb yr iaith a phoblogeiddio'r hyn a ddarlledir.

4.12 Dywedodd Janet Williams, gofalwr maeth iddi ymweld â Chaerdydd y diwrnod blaenorol gyda grp o blant er mwyn codi proffil maethu yng Ngwynedd. Dywedodd fod swyddog cefnogi yn cael ei golli o Fangor oherwydd diffyg cyllid ac na fyddai unrhyw gefnogaeth ar gael i'r dyfodol yn yr iaith Gymraeg. Yr oedd yna hefyd broblem o ran recriwtio gofalwyr maeth yng Ngwynedd:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru fod gan faethu ran bwysig i'w chwarae gan fod plant, yn gyffredinol, yn gwneud yn well mewn cartref maeth nag mewn sefydliad. Gwahoddodd Janet

Williams i ysgrifennu ato yngln â cholli'r swyddog cefnogi fel y gallai fynd ar drywydd y mater.

4.13 Dywedodd Eryl Jones Williams o Gyngor Tref Dolgellau fod y gwasanaeth ambiwlans yn darparu gwasanaeth pwysig yng Ngogledd Cymru. A ellid rhoi sicrwydd na fyddid yn torri ar gyllid y gwasanaeth o gwbl?

- dywedodd Prif Weinidog Cymru na allai roi sicrwydd na châi'r cyllid ei dorri byth ond dywedodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau a fyddai'n cael yr effaith honno;
- ychwanegol Enid Rowlands fod y Gwasanaeth Ambiwlans wedi derbyn cyfran o'r adnoddau ychwanegol ar gyfer iechyd eleni. Fodd bynnag, nid gwaith brys oedd 90% o'i waith ac yr oedd yn bwysig gwneud y defnydd gorau o staff sydd wedi'u hyfforddi at lefel uchel a chyfarpar drud.

4.14 Gofynnodd Jamie Dawes, disgybl yn Ysgol Eifionydd a ddylai fod yna un tîm pêl-droed i Brydain:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru ei fod yn llwyr yn erbyn y syniad, sy'n groes i 130 mlynedd o hanes ym maes pêl-droed.

4.15 Gofynnodd Richard Singer, Canolfan Cynghori Ynys Môn a oedd gan y Cynulliad unrhyw gynlluniau i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar gam mewn tribiwnlysoedd diwydiannol:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac mai mater i'r Adran Gyflogaeth yw.

4.16 Gofynnodd Fiona Jones, myfyriwr aeddfed, beth oedd polisi'r Cynulliad ar arian ar gyfer myfyrwyr:

- dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd gan y Cynulliad y pwerau i ddiddymu ffïoedd myfyrwyr fel yr oedd Senedd yr Alban wedi ei wneud. Fodd bynnag, gallai helpu i oresgyn caledi ymysg myfyrwyr mewn ffyrdd eraill. Dywedodd fod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson, wedi ymgymryd ag adolygiad ar wella mynediad i addysg bellach ac uwch a byddai adroddiad yr adolygiad ar gael yn y gwanwyn.

4.17 Holodd y Cynghorydd David Barratt, Cyngor Sir y Fflint yngln â chyllid ar gyfer ysgolion. Teimlai nad oedd arian ychwanegol a addawyd wedi'i dderbyn:

- eglurodd Prif Weinidog Cymru fod y cyllid ychwanegol i ysgolion yn cael ei sianelu drwy'r awdurdodau lleol yng Nghymru a gallent hwy edrych ar yr anghenion o safbwynt strategol.

4.18 Gofynnodd Gareth Williams, Cadeirydd Cyngor Tref Porthmadog a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud yngln â'r penderfyniad a wnaethpwyd gan John Prescott i gymeradwyo cais Cwmni Rheilffordd Ffestiniog am ganiatâd cynllunio i ymestyn y rheilffordd ar draws y ffordd ym Mhorthmadog.

- dywedodd Prif Weinidog Cymru fod y penderfyniad wedi'i wneud ac nad oedd dim y gellid ei

wneud bellach i'w newid. Gobeithiai y byddai'r rheilffordd yn profi i fod o fantais i'r diwydiant twristiaeth yn yr ardal.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref**

5.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd mai'r bwriad oedd cynnal y cyfarfod nesaf yn Sir y Fflint ac mai'r maes i'w ystyried fyddai'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc yng Ngogledd Cymru. O ystyried y pwnc câi'r cyfarfod ei gynnal mewn ysgol neu goleg. Cytunwyd ar hyn. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â chlerc y pwyllgor os oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau yngln â busnes y pwyllgor i'r dyfodol.

5.3 Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i Gyngor Tref Porthmadog am ei letygarwch.

**Ysgrifenyddiaeth** **Rhagfyr 2000**

---

**Atodiad 1**

Image3.gif (10450 bytes)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
**North Wales Regional Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

19 Rhagfyr 2000

Chris Green Ysw
Prif Weithredwr
Trenau Virgin
Gorsaf Euston
Swyddfeydd yr Adain Orllewinol
LLUNDAIN NW1 2HS

**TRENAU VIRGIN: Y GWASANAETH O GAERGYBI I LUNDAIN**

Rwy’n ysgrifennu ar ran Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad Cenedlaethol yng Ngogledd Cymru yngln â’r gwasanaeth rhwng Caergybi a Llundain. Mae’r Pwyllgor yn cynnwys holl Aelodau Cynulliad Gogledd Cymru.

Hoffai’r Pwyllgor nodi ei fod yn gwbl anfodlon â’r ffaith ichi fethu â darparu gwasanaeth o Ogledd Cymru i Lundain. Er ein bod yn cydnabod bod rhan o’r gwasanaeth bellach ar gael, drwy ddod â’r gwasanaeth i ben fe effeithiwyd yn arw nid yn unig ar deithwyr o Ogledd Cymru ond hefyd ar y rheini a oedd yn teithio o Weriniaeth Iwerddon, gan ddisodli’r gwasanaeth fferi rhwng Dulyn a Chaergybi a phorthladd Caergybi ei hun. Yn y tymor hwy, byddai methu â darparu gwasanaeth uniongyrchol dibynadwy rhwng Gogledd Cymru a Llundain yn effeithio ar ddiwydiant, ar y gwasanaethau cyhoeddus ac ar dwristiaeth yn y Gogledd.

Hoffai’r Pwyllgor wybod pam yn union nad oedd y gwasanaeth hwn ar gael, tra’r oedd gwasanaethau eraill yn dal i gael eu darparu, er iddynt hwythau hefyd deimlo effaith yr anawsterau ar y pryd. Hoffai’r Pwyllgor hefyd weld y gwasanaeth rhwng Caergybi a Llundain yn ailddechrau’n llawn, a hynny ar frys, ac mae’n gofyn am addewid y gwneir hyn cyn gynted â phosib.

Byddwn yn ddiolchgar am ateb cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ddydd Gwener 26 Ionawr 2001.

Yn gywir

*Ann Jones*
*Cadeirydd, Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd*